

GWEITHIO GYDA PHLANT

CWESTIYNAU AC ATEBION AR RODWYR AC ARTISTIAID CEFNOGOL (“AC”) & GWIRIADAU DATGELIAD SYLFAENOL

Nod y ddogfen Holi ac Ateb hon yw esbonio'r modd y bydd yr agwedd at wiriadau cefndir ledled y diwydiant yn effeithio ar Artistiaid Cefnogol (“AC”) sy'n gweithio ar gynyrchiadau y mae plant a phobl ifanc o dan 18 mlwydd oed yn rhan ohonynt. Mae'r agwedd hon, ledled y diwydiant, wedi cael ei mabwysiadu gan y BBC, Channel 4, Channel 5, ITV, Sky, STV, S4C a Pact.

1. Beth a ddisgwylir gan yr Artistiaid Cefnogol?

Rydym yn gofyn i'r asiantaethau sy'n darparu Artistiaid Cefnogol roi gwybod i bob un sydd ar eu cofrestr y bydd angen iddynt gael gwiriad sylfaenol o gofnod troseddol, a hynny ar ffurf gwiriad datgeliad sylfaenol yn achos yr artistiaid hynny sy'n dymuno gweithio ar unrhyw ffilm neu raglen a gomisiynir gan ddarlledwyr gwasanaethau cyhoeddus, neu Sky, ac y maent yn cynnwys plant a phobl ifanc.

Sylwer ei bod yn bosibl i bobl ifanc sy'n hŷn nag 16 mlwydd oed gael gwiriadau datgeliad sylfaenol, a bydd disgwyl iddynt wneud hynny.

Bydd sesiynau briffio a gwybodaeth ychwanegol yn ofynnol ar gyfer cynyrchiadau penodol.

2. Beth y mae rhaglenni neu ffilmiau sy'n cynnwys plant a phobl ifanc yn ei olygu?

Unrhyw raglen neu ffilm a allai gynnwys plentyn a/neu berson ifanc ar ryw adeg yn ystod y cyfnod cynhyrchu, boed mewn rolau sy'n siarad neu beidio. Mae hyn yn cynnwys cynyrchiadau a allai fod ag unigolion o dan 18 mlwydd oed ar y set ar unrhyw adeg o ganlyniad i newidiadau munud olaf i'r amserlen.

3. Beth yw tystysgrif datgeliad sylfaenol?

Mae tystysgrif datgeliad sylfaenol yn ddogfen a gedwir gan yr heddlu, sy'n cynnwys gwybodaeth ddiudedd a chyfrinachol am hanes troseddol, y gellir ei defnyddio i wneud penderfyniadau recriwtio mwy diogel.

Bydd y ddogfen datgeliad sylfaenol yn rhoi manylion am unrhyw euogfarnau heb eu disbyddu a allai fod gan unigolyn.

4. Pam y mae angen i Artistiaid Cefnogol gael tystysgrif datgeliad sylfaenol?

Mae gan bob darlledwr a chynhyrchydd safonau eithriadol o uchel o ran diogelu ac amddiffyn plant, ac mae lles corfforol ac emosiynol pob plentyn sy'n rhan o'u cynyrchiadau o'r pwys mwyaf un.

Mae darlledwyr a chynhyrchwyr yn chwilio am y gwiriad hwn er mwyn cael sicrwydd allanol nad

oes gan yr Artist Cefnogol y maent yn ei recriwtio i weithio ar raglenni neu ffilmiau sy'n cynnwys unigolion o dan 18 oed euogfarnau heb eu disbyddu am droseddau a gynhwysir yn Neddf Troseddau Rhywiol 2003. Mae pob plentyn sy'n gweithio ar gynyrchiadau o dan oruchwyliaeth hebryngwr bob amser, a hynny gan hebryngwr trwyddedig a/neu riant/warcheidwad. Fodd bynnag, bydd y gwiriad hwn yn datgelu a oes gan unrhyw un o'r Artistiaid Cefnogol euogfarnau heb eu disbyddu a ddylai eu hatal rhag gweithio ar gynhyrchiad sy'n cynnwys plant, p'un a yw'r plant o dan oruchwyliaeth hebryngwr ai peidio.

At hyn, bydd gan y darlledwyr eu protocolau, eu canllawiau a'u codau ymddygiad eu hunain, sy'n esbonio i'r cynhyrchwyr yr ymddygiad a'r safonau sy'n ofynnol gan bob unigolyn sy'n gweithio ar gynyrchiadau sy'n cynnwys plant (a hynny ar y sgrin, ac oddi arni).

5. Sut ydw i'n ymgeisio am wiriad datgeliad sylfaenol?

Dylid anfon cais am dystysgrif datgeliad sylfaenol at un o'r canlynol:

Os ydych yn byw neu'n gweithio yn	
Cymru a Lloegr	https://www.gov.uk/government/publications/basic-checks
Yr Alban	https://www.mygov.scot/basic-disclosure/apply-for-basic-disclosure/
Gogledd Iwerddon	https://www.nidirect.gov.uk/services/apply-online-basic-check

Nid oes angen i chi nodi cyfeiriad unrhyw ddarlledwr na chynhyrhydd yn y broses hon gan mai eich asiant fydd yn gwirio'r dystysgrif a gawsoch.

6. Pa wybodaeth sydd ei hangen i gwblhau'r broses ymgeisio?

Mae safleoedd y llywodraeth (a nodir yn Adran 5) yn darparu cyfarwyddiadau clir.

Mae'r wybodaeth sy'n debygol o fod yn ofynnol yn cynnwys:

- Manylion eich cyfeiriad cartref am y 5 mlynedd ddiwethaf.
- Rhif Yswiriant Gwladol
- Dogfen Adnabod sy'n cynnwys eich dyddiad geni (e.e. pasbort, trwydded yrru)
- Dogfen Adnabod sy'n cynnwys eich cyfeiriad cyfredol (e.e. bil cyfleustodau, cyfriflen banc)

7. Faint y mae tystysgrif yn gostio? Pa mor hir y mae'n ei gymryd i gyhoeddi tystysgrif?

Ar hyn o bryd, mae tystysgrif yn costio fel a ganlyn:

Cymru a Lloegr:	Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd	£25
Yr Alban:	Datgeliad yr Alban (Disclosure Scotland)	£25
Gogledd Iwerddon:	Mynediad Gogledd Iwerddon (AccessNI)	£26

Fel arfer, nid yw'n cymryd mwy na 14 o ddiwrnodau i gyhoeddi tystysgrif.

8. Pa mor aml y mae angen i mi ddarparu tystysgrif?

Bydd angen darparu tystysgrif newydd bob 18 mis. Fodd bynnag, os byddwch yn cael eich euogfarnu am drosedd o dan Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003 yn ystod y cyfnod hwnnw, bydd angen i chi roi gwybod i'ch asiant, oherwydd ni all ddarparu eich gwasanaethau i gynyrchiadau

sy'n cynnwys plant. Byddwch hefyd yn sylwi ar eiriad a fydd yn cael ei gynnwys yn eich nodiadau, sy'n cadarnhau nad ydych wedi cyflawni'r un drosedd rywiol ers cael y dystysgrif Datgeliad Sylfaenol, er enghraifft:

“Rwy'n cadarnhau nad oes gennyf unrhyw euogfarnau heb eu disbyddu mewn perthynas â throeddau rhywiol a gynhwysir yn Neddf Troseddau Rhywiol 2003, ac nid wyf erioed wedi bod yn destun unrhyw gamau disgyblu neu gosb yn ymwneud â grwpiau sy'n agored i niwed.”

9. I bwy y dylwn ddangos y dystysgrif datgeliad sylfaenol?

Byddwch yn dangos eich tystysgrif i'ch asiant.

Efallai y gofynnir i chi ddarparu neu ddangos y dystysgrif hon i gwmni cynhyrchu neu ddarlledwr, os byddwch yn dymuno cael eich ystyried ar gyfer rôl.

10. Beth yw'r gwahaniaeth rhwng y gwiriad datgeliad sylfaenol a'r gwiriadau safonol a manylach (y cyfeirir atynt yn gyffredinol fel gwiriadau DBS, neu CRB yn flaenorol)?

Dim ond manylion euogfarnau heb eu disbyddu y mae'r gwiriad datgeliad sylfaenol yn ei roi. Gall unigolion a gweithwyr hunangyflogedig wneud cais am y dystysgrif hon, tra na all ymrwymwyr gyflwyno cais am wiriad sylfaenol.

Mae gwiriadau safonol a manylach yn rhoi manylion euogfarnau heb eu disbyddu ac euogfarnau wedi'u disbyddu, fel ei gilydd, ac maent yn berthnasol i rai categorïau o swyddi'n unig (e.e. athro neu weithiwr gofal iechyd proffesiynol), neu pan fo unigolyn yn cyflawni'r hyn a ddiffinnir yn "weithgaredd rheoledig" gyda phlentyn neu oedolyn sy'n wynebu risg. Gan nad yw Artistiaid Cefnogol wedi cael eu rhestru o dan y categorïau swyddi penodol hyn, na chwaith yn ymwneud, fel arfer, â'r hyn a ddisgrifir yn "weithgaredd rheoledig", mae'n annhebygol y byddant yn gymwys ar gyfer y gwiriadau hyn.

11. A yw cyfranwyr neu aelodau eraill o'r criw yn cael eu gwirio?

Cynhelir gwiriadau pan fydd cyfranwyr neu aelodau o'r criw yn gymwys ar gyfer gwiriadau DBS/Amddiffyn Grwpiau Agored i Niwed (PVG). Os na fyddant yn gymwys ar gyfer gwiriadau o'r fath ond yn gweithio gydag unigolion iau nag 18 mlwydd oed, a hynny o dan oruchwyliaeth, yna bydd yn ofynnol iddynt lenwi ffurflen hunanddatganiad a allai helpu i roi rhywfaint o sicrwydd mewn perthynas â'u hanes troseddol. Defnyddir y ffurflen hon mewn amgylchiadau penodol, ac, fel arfer, pan fydd gennym berthynas gytundebol uniongyrchol â'r unigolion dan sylw.

12. Beth sy'n digwydd os na fydd Artist Cefnogol yn cael tystysgrif datgeliad sylfaenol?

Os byddai'n well gan Artist Cefnogol beidio â chael neu ddatgelu ei dystysgrif datgeliad sylfaenol, gall barhau i weithio ar gynyrchiadau nad ydynt yn cynnwys plant.

13. Beth os bydd gan Artist Cefnogol wiriad cefndir troseddol yn barod, er enghraifft gwiriad DBS manylach?

Trwy ganiatâd yr unigolyn, mae pob gwiriad cefndir troseddol, gan gynnwys gwiriadau sylfaenol, safonol a manylach, yn ddilys at y diben hwn am 18 mis o'r dyddiad cyhoeddi. (D.S. mae'r gwiriadau safonol a manylach yn ddilys am 18 mis yn unig o'r dyddiad cyhoeddi, oherwydd ni all cynhyrchwyr wneud cais am y gwiriadau hyn ar gyfer gwaith Artistiaid Cefnogol. Felly, ni fydd



cynhyrchwyr yn cael gwybod am unrhyw newidiadau i statws yr Artistiaid Cefnogol, yn wahanol i gyflogwyr a wnaeth gais am y gwiriad safonol neu fanylach. Yn yr un modd â'r gwiriad sylfaenol, mae'r gwiriadau safonol a manylach yn giplun o statws yr Artistiaid Cefnogol ar un adeg penodol.)

14. A allaf ddefnyddio'r un gwiriad os ydw i'n gweithio i asiantau/asiantaethau gwahanol?

Gallwch.

15. Pa bolisiau ychwanegol sydd gan y darlledwyr?

BBC

Polisi Amddiffyn Plant

- http://www.bbc.co.uk/corporate2/insidethebbc/howwework/policiesandguidelines/child_protection.html

Cod Ymddygiad

- http://www.BBC.co.uk/corporate2/insidethebbc/howwework/policiesandguidelines/child_protection.html#Heading-Child-Protection-Code-of-Conduct

Channel 4

Canllawiau ar gyfer Ffilmio a Gweithio gydag unigolion o dan 18 oed

- <https://www.channel4.com/producers-handbook/c4-guidelines/working-and-filming-with-under-18s-guidelines>

ITV

- <http://www.itv.com/commissioning/guidelines/compliance-guidelines>

Sky

- <https://www.skygroup.sky/corporate/about-sky/production>

S4C

- http://www.s4c.co.uk/media/media_assets/2018_Polisi-Amddiffyn-Plant-S4C.pdf